

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER

12 Ionawr 2022

AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL:	
Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, S Jones, G Parry, E Huws, J Earnshaw, E Law-Shui Nicholson, C Griffiths, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU:	
Cyng D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Dymunodd y Cadeirydd Blwyddyn Newydd Dda I pawb.
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng I Roberts a Cyng P Roberts eitem 6.2 - 18 Bro Mynydd, Bryngwran.
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.11.21
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Willow Tunnel – Cynigiodd y Cadeirydd wirio bod y gwaith wedi'i wneud a bydd yn cysylltu â'r Clerc
4.2	Lon y Fynwent – Cynigiodd y Cyng S Jones dynnu lluniau cyn y cyfarfod nesaf
4.3	Grant ar gyfer y maes Chwarae – Mae Cyng E Law-Shui Nicholson wedi siarad gyda Medrwn Môn am grant ac yn fodlon gwneud y cais. Bydd yn anfon y ffurflen at y Clerc ar ôl ei chwblhau. Efallai y bydd cyllid arall ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan y Gymdeithas. Bydd y Clerc hefyd yn ystyried Grant Cymunedol y Jiwbilî
4.4	Lon Salem – A5 - Bydd y Clerc yn gofyn am gyfarfod gyda'r Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gydweithio a dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd pawb yn ymgeisio am sedd yn etholiadau mis Mai.
Llofnod.....Cadeirydd 09.02.22	

6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Priffyrdd
6.1	E-bost oddi wrth yr Adran Priffyrdd yn nodi eu bod yn barod i gyfarfod â'r cyngor – gweler 4.4
6.2	18 Bro Mynydd, Bryngwran - Darllenwyd e-bost gan yr Adran Priffyrdd yn datgan eu bod yn cefnogi'r cais am leoedd parcio ychwanegol ger 18 Bro Mynydd. Awgrymodd y Cyng R G Parry fod y mater yn cael ei drafod gyda'r Adran Briffyrdd yn y cyfarfod ynghylch Lôn Salem/A5
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
	Dim
8	MATERION ERAILL
	Dim
9	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rhys Williams (torri gwair) £1695.00
9.2	G Owen, y Clerc (y swm y mae wedi'i dalu ar-lein am danysgrifiad blynyddol y cyngor i Zoom) £143.88
9.3	Praesept 2022/23. Cytunodd yr Aelodau i godi'r praesept i £13000.00
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Ddathliadau Jiwbilî
	Llofnod.....Cadeirydd 09.02.22